

Adolygiad gan Gymheiriaid o Ganser Wrolegol 2014

Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD

Y Tîm Adolygu gan Gymheiriaid

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Tom Crosby	Cyfarwyddwr Meddygol y Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru
Mr Vaikuntum Srinivasan	Llawfeddyg Wroleg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mr John Featherstone	Llawfeddyg Wroleg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Mau-Don Phan	Oncolegydd Ymgynghorol	Canolfan Canser Singleton Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Janet Marty	Nyrs Glinigol Wroleg Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Melanie Simmons	Rheolwr Perfformiad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Mansel Thomas	Adolygydd Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Dinene Rixon	Sylwedydd	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Sue Davies	Cydgysylltydd Adolygu	Rhwydwaith Canser De Cymru

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro	
Teitl Tîm	Ysbyty Athrofaol Cymru	
Teitl Dyddiad Adolygu	30 Ionawr 2014	
Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Sarah Bennett	Nyrs Glinigol Wro-oncoleg Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Colette Clements	Nyrs Arwain Ymchwil Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Shibs Datta	Cyfarwyddwr Clinigol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Rhian Davies	Rheolwr Cyfarwyddiaeth Cynorthwyol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
David Griffiths	Patholegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Anne Hiscocks	Nyrs Arwain dros Lawfeddygaeth Gyffredinol, Wroleg, a'r Pen a'r Gwddf	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Sam Holliday	Nyrs Glinigol Wro-oncoleg Arbenigol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Owen Hughes	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Meriel Jenney	Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol Gwasanaethau Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Ceri Jones	Gwasanaethau Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Clare Jones	Nyrs Ymchwil Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Hrishi Joshi	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Mel Lewis	Nyrs Arwain Gofal Lliniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Maggie Lucas	Rheolwr Canser Arwain	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Anne Marie Morgan	Rheolwr Cyfarwyddiaeth Dros Dro ar gyfer Llawfeddygaeth Gyffredinol ac Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Spiro Pezaros	Cydgysylltydd Llwybr Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
John Rees	Radiolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Murali Varma	Patholegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Luke Wheeler	Radiolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Themâu Allweddol

1 Strwythur a Swyddogaeth y Gwasanaeth

Cyfarfu'r tîm adolygu gan gymheiriaid â chynrychiolwyr o dimau amlddisgyblaethol Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro i adolygu eu gwasanaethau canser wrolegol. Gofynnodd y tîm adolygu am esboniad o'r data a gyflwynwyd fel rhan o'r broses hunanasesu er mwyn gweld a oedd y data a gyflwynwyd yn adlewyrchu'r gwasanaeth cyflawn sy'n cael ei gyflenwi yn Ysbyty Athrofaol Cymru. Cadarnhaodd arweinydd y tîm amlddisgyblaethol fod y broses casglu data wedi bod yn anodd, ac er bod llawer o ddata ar gael ei bod wedi bod yn anodd eu casglu o nifer o wahanol ffynonellau. Gwelwyd nad oedd data o gyfarfod y tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar yn arbennig wedi cael eu cyflwyno yn eu cyfanrwydd yn wreiddiol fel rhan o'r broses hunanasesu, a chyflwynwyd gwybodaeth bellach ynghylch hyn ac agweddau eraill ar y gwasanaeth yn hwyrach i gadarnhau'r drafodaeth yn y cyfarfod adolygu gan gymheiriaid. Roedd y tîm adolygu gan gymheiriaid wedi ceisio adolygu mwyafrif y data hyn, ond roedd yn cydnabod bod hyn wedi bod yn anodd oherwydd amserlen cyflwyno'r data.

Mae'r gwasanaeth wroleg yn cynnal dau gyfarfod amlddisgyblaethol, cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar ar ddydd Mawrth a chyfarfod y tîm amlddisgyblaethol wroleg ar ddydd Gwener; mae presenoldeb da yng nghyfarfodydd y timau amlddisgyblaethol gan radioleg, patholeg, oncoleg a gofal lliniarol, gyda chefnogaeth gan y tîm nyrsys wroleg arbenigol.

Caiff y tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar ei hwyluso gan y Cydgysylltydd Llwybr Wroleg mewn partneriaeth â Gwasanaethau Canser. Mae cleifion sydd i gael eu trafod yn y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar yn cael eu rhestru trwy gyfrwng y modiwl cyfarfod tîm amlddisgyblaethol, ond nid oes unrhyw wybodaeth glinigol yn cael ei hychwanegu at y Cynllun Rheoli Canser o fewn Canisc. Mae penderfyniadau clinigol y tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cofnodi ar y nodyn profforma / achos clinigol Canser Prostad Cynnar. Er bod y tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar yn casglu gwybodaeth ardderchog, nid yw ar gael ar fformat electronig, ac felly gellid tybio nad yw cydweithwyr yn yr adran oncoleg a gofal sylfaenol yn gallu gweld penderfyniad y tîm amlddisgyblaethol a'r cynllun rheoli y cytunwyd arno.

Caiff cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol wroleg ei gydgysylltu gan gydgysylltydd y tîm amlddisgyblaethol. Caiff gwybodaeth ei chipio 'yn fyw' yn ystod cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol a'i gosod yn yr adran Cynllun Rheoli Canser ar Canisc.

Caiff atgyfeiriadau eu derbyn naill ai'n electronig neu drwy ffacs, ac maent yn cael eu cydgysylltu gan y Cydgysylltydd Llwybr Wroleg; mae atgyfeiriadau gofal heb ei drefnu fel arfer yn derbyn eu hapwyntiad cyntaf o fewn deg diwrnod. Nod y tîm yw darparu clinig un stop, ond gall mynediad at slot radioleg fod yn anodd oherwydd niferoedd uchel o gleifion. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn rhan o ymarfer mapio mewn cydweithrediad â'r Adran Gwella Gwasanaeth a'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH).

Lleisiodd y tîm bryder ynghylch diogelwch ac urddas trosglwyddo cleifion o'r adran radioleg i Ystafell 18 yn yr ystafell i gleifion allanol i adfer ar ôl eu biopsi TRUS. Mae Ystafell 18 wedi cael ei hailwampio'n ddiweddar, er nad yw wedi ei chomisiynu'n llawn eto, ac mae darparu gwasanaeth wrolegol llawn yn Ystafell 18 – gan gydnabod bod y gwasanaeth yn dibynnu'n drwm ar radioleg i gefnogi'r gwasanaeth ar hyn o bryd – yn nod tymor hir. Cydnabuwyd y

byddai galw bythol gynyddol ar y gwasanaeth hwn oherwydd poblogaeth sy'n heneiddio, a chynnydd mewn clefydau o ganlyniad, ac y byddai angen ystyried adnoddau amgen er mwyn cyflenwi gwasanaeth diogel a phrydlon o ansawdd uchel. Cydnabuwyd bod angen ymchwilio swyddogaeth ehangach llawfeddygaeth wrth archwilio cleifion canser y prostad yn ymyriadol.

Mae atgyfeiriadau am lefelau uchel o PSA ac at glinigau mynediad cyflym ar gyfer gwaed yn y troeth yn cael eu gweld gan y nyrsys wroleg arbenigol i ddechrau. Caiff y broses ddiagnostig ei hegluro i'r cleifion a chaiff ei chadarnhau gan wybodaeth ysgrifenedig. Mae'r tîm nyrsio wedi cynnal archwiliad o'r gwasanaeth hwn, ac mae'r canfyddiadau wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Caiff cleifion eu rheoli'n rhagweithiol ar hyd y llwybr, ac mae apwyntiadau'n cael eu trefnu ymlaen llaw cyn derbyn canlyniadau'r profion blaenorol. Mae'r cydlynnydd llwybr wroleg a nyrsys wroleg arbenigol yn dilyn y cleifion ar hyd y llwybr i sicrhau eu bod yn derbyn gwasanaeth prydlon sydd wedi ei gydgysylltu. Methwyd â chyrraedd y targedau amser aros ar gyfer gwasanaethau canser wrolegol ar gyfer atgyfeiriadau prostad ac arennol gofal heb ei drefnu ac atgyfeiriadau prostad a phledren nad oeddent yn rhai gofal heb ei drefnu.

Roedd y data a ddychwelwyd yn cam-gyfleu'r gweithgarwch llawfeddygol go iawn ar gyfer y tîm; rhoddwyd sicrwydd i'r tîm adolygu gan gymheiriaid bod llawer mwy o weithgarwch llawfeddygol na'r hyn a nodwyd. Mae'r tîm hefyd yn darparu gwasanaeth rhanbarthol ar gyfer prostadectomiau radical a systectomiau radical i gymuned iechyd Cwm Taf; fodd bynnag, mae methu â chyflawni targedau amser aros wedi effeithio ar atgyfeiriadau trydyddol at y gwasanaeth.

Ar hyn o bryd, mae pob llawdriniaeth prostadectomi'n cael ei pherfformio fel triniaeth agored; mae'r canlyniadau'n rhagorol o'u cymharu â'r gorau yn y DU. Mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau cyllid i ddarparu llawdriniaeth robotig; mae'r robot i fod i gael ei osod mewn ystafell llawdriniaeth ddynodedig yn Ebrill/Mai 2014. Cydnabu'r tîm amlddisgyblaethol iddo gael cymorth rhagorol gan reolwyr Caerdydd a'r Fro mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru mewn ymgais i wneud y fenter hon yn llwyddiannus. Nodwyd y byddai'r tîm yn ymgymryd â chyfnod o hyfforddiant i ennill y sgiliau i gefnogi cyflenwi'r gwasanaeth hwn.

Mae menter gan y bwrdd iechyd i asesu pa wasanaethau allai dderbyn cleifion ar ddiwrnod llawdriniaeth. Mae gwasanaethau wroleg yn cael eu hystyried fel rhan o'r prosiect hwn, a'r gobaith yw y bydd gwasanaethau canser wrolegol yn gallu cynnig derbyn cleifion ar ddiwrnod llawdriniaeth. Roedd cyfarfodydd perfformiad rheolwyr yn cael eu cynnal yn rheolaidd, a thrafodir mentrau o'r fath ynddynt er ei bod yn llai eglur sut roedd yr arweinydd a'r tîm canser wrolegol yn cyfrannu at y cyfarfodydd hyn.

Mae rhaglen adferiad gwell wedi cael ei rhoi ar waith i gleifion systectomi, a gobeithir y bydd y fenter hon yn byrhau'r cyfnod yn yr ysbyty i'r garfan hon o gleifion.

Darperir gwasanaethau oncoleg gan Ganolfan Gofal Canser Felindre. Nododd adolygiad blyneddol diweddar o wasanaethau canser wrolegol amrywiaeth o ran darparu isrannu prostad. Cadarnhawyd bod y ddwy raglen yn cael eu cynnig i gleifion ac y gallant ddewis naill ai'r rhaglen pedair wythnos neu'r rhaglen saith wythnos.

Mae ymchwilio opsiynau gwahanol i gyflenwi gwasanaeth oncoleg aciwt yn cael blaenoriaeth gan y bwrdd iechyd. Cadarnhaodd y tîm wroleg bod ganddo system ar waith i sicrhau bod cleifion â chanser sylfaenol anhysbys yn cael eu cyfeirio at y tîm amlddisgyblaethol priodol am drafodaeth.

Tynnwyd sylw at y ffaith bod y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE) wedi diweddarau ei ganllawiau ar Wella Canlyniadau mewn Canserau Wrolegol a sut y bydd yr argymhellion hyn yn cael effaith ar gyflenwi gwasanaeth ar hyn o bryd. Nododd y tîm ei fod yn edrych ar oblygiadau hyn i'r gwasanaeth; sef capasiti radioleg i ddarparu MRI aml-barametrig, cynnydd mewn gweithgarwch wro-patholeg, a'r adnoddau cyfyngedig presennol ar gyfer biopsïau TRUS i gefnogi protocolau gwylidwriaeth weithredol.

Mae'r tîm o nyrsys ymchwil yn sicrhau recriwtio gwych i dreialon clinigol a chyflwyno samplau i'r Banc Canser.

2. Gofal a Phrofiad sy'n Canolbwyntio ar y Cl

Mae tîm o nyrsys clinigol arbenigol sy'n darparu cymorth nyrsio a gweithiwr allweddol i gleifion. Mae'r nyrsys arbenigol yn rhedeg nifer o glinigau sy'n cael eu harwain gan nyrsys, dau glinig dros y ffôn, dau glinig wyneb yn wyneb, a chlinig adolygu mewn cydweithrediad â'r ymgynghorydd. Mae dulliau ar waith i ddarparu asesiad holistaidd o angen ar gyfer cleifion. Maent yn cael eu cynnal ar sail unigol, ac mae cleifion yn cael eu cyfeirio at wasanaethau cymorth priodol. Ar hyn o bryd, nid yw cleifion yn gallu mynd at wasanaethau seicolegol, ond rhoddwyd sicrwydd i'r tîm adolygu y caiff y broblem hon ei datrys gan fod y bwrdd iechyd wedi sicrhau cyllid i ddarparu dau seicolegydd clinigol cyfwerth ag amser llawn.

Mae nifer o grwpiau cymorth i gleifion wedi cael eu sefydlu gan y tîm ar gyfer canser y prostad, aren a'r bledren. Mae cynrychiolwyr o'r tîm wroleg ymgynghorol yn mynychu cyfarfodydd y grŵp cleifion i roi cymorth i gleifion i ddeall y gwahanol ganserau wrolegol a'u triniaethau.

Mae'r tîm nyrsio wedi cynnal nifer o arolygon boddhad cleifion lleol er mwyn sicrhau barn y cleifion am eu gwasanaeth. Nodwyd bod yr arolwg cleifion diweddar gan Macmillan yn cadarnhau canfyddiadau'r arolygon lleol.

a. Tystiolaeth Gweithiwr Allweddol

Cadarnhaodd y nyrsys clinigol arbenigol eu bod yn darparu swyddogaeth y gweithiwr allweddol i'r cleifion. Mae pob claf yn cael cerdyn gweithiwr allweddol gyda rhifau ffôn ar gyfer y tîm. Cafodd tystiolaeth gweithiwr allweddol ei chofnodi yn y sampl o nodiadau achos a ddarparwyd gan y bwrdd iechyd.

3 Ansawdd a Chyflenwi Gwasanaeth

a. Cymorth i'r Gwasanaeth gan y Timau Amlddisgyblaethol3

Mae'r gwasanaeth wroleg yn cynnal dau gyfarfod amlddisgyblaethol, cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar ar ddydd Mawrth a chyfarfod y tîm amlddisgyblaethol wroleg ar ddydd Gwener; mae presenoldeb da yn y timau amlddisgyblaethol gan radioleg, patholeg, oncoleg, nyrs glinigol arbenigol a gofal lliniarol.

Cydnabuwyd bod y cydgysylltydd llwybr wroleg yn chwarae rhan hanfodol yn cefnogi'r tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar gan sicrhau bod yr holl gleifion yn cael eu trafod yn y cyfarfod tîm amlddisgyblaethol, ac mewn partneriaeth â'r nyrsys clinigol arbenigol mae'n cydgysylltu llwybr diagnosis y cleifion.

Nodwyd bod radiolegydd ymgynghorol sy'n ymgymryd â biopsïau TRUS i fod i ymddeol yn y deuddeg mis nesaf ac y bydd hyn yn cael effaith ar y gwasanaeth. Cydnabuwyd bod y

ddibyniaeth ar radioleg a'r diffyg eglurder ynghylch pwy fyddai'n ymgymryd â'r biopsïau TRUS (y disgwylir y bydd yr angen amdanynt yn cynyddu gyda chanllawiau NICE diweddar) yn peri risg i gynaliadwyedd y gwasanaeth yn y dyfodol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn cyflwyno cleifion am lawdriniaeth radical yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol Canser Prostad Cynnar, ond ar adegau nid yw delweddau wedi cael eu trosglwyddo'n brydlon i system PACS Caerdydd a'r Fro er mwyn ategu'r drafodaeth yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol.

b. Data Canlyniadau'r Gwasanaeth

		Targed
Nifer/% o atgyfeiriadau gofal heb ei drefnu a dderbyniodd driniaeth o fewn 62 diwrnod	Prostad – 124/141 (87.9%) Pledren – 29/30 (96.7%) Arennol – 23/26 (88.5%)	95%
Nifer/% o atgyfeiriadau nad ydynt yn rhai gofal –heb ei drefnu a dderbyniodd driniaeth o fewn 32 diwrnod	Prostad – 57/59 (96.6%) Pledren – 12/13 (92.3%) Arennol – 21/21 (100%)	98%
Nifer/% o gleifion gyda graddfa cyn-triniaeth wedi ei chofnodi	Prostad – 210/289 (73%) Pledren – 10/62 (16%) Arennol – 7/65 (11%)	70%
Nifer y cleifion a gafodd eu rhoi ar dreialon clinigol	33	10%
Nifer y cleifion yn rhoi i Fanc Canser Cymru	165	
Nifer/% o gleifion a drafodwyd yng nghyfarfodydd y timau amlddisgyblaethol	Prostad – 227/289 (78%) Pledren – 48/62 (77%) Arennol – 57/65 (87%)	100%
Amser canolrifol ar gyfer cleifion â charsinoma trosiannol celloedd y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau ar ddechrau triniaeth iachaol ddiffiniol	Dim ar gael	93 diwrnod
Amser canolrifol at TURBT	42 diwrnod	

a. Archwiliadau, prosiectau a chanlyniadau allweddol

Mae'r tîm wedi cynnal nifer o archwiliadau lleol, ond nid oes ganddo fforwm i drafod canfyddiadau ei archwiliadau.

b. Sylwadau Cyffredinol

Nododd y tîm adolygu bod Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn darparu gwasanaethau wroleg rhagorol ar y cyfan, ond oherwydd nad yw data'n cael eu cyflwyno'n dda, roedd yn anodd adolygu'r gwasanaeth yn feimiadol. Roedd cryn ymdrech wedi ei

gwneud i ymgysylltu ag arweinwyr clinigol, ond er y cafodd llawer iawn o ddata archwiliad eu cyflwyno 'ar y funud olaf', nodwyd nad oedd y data wedi eu cyflwyno'n brydlon i'r broses adolygu gan gymheiriaid er bod llawer o ddata ar gael.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cael cefnogaeth ragorol gan radioleg, patholeg ac oncoleg, ac mae cleifion yn cael cymorth gan dîm o nyrsys clinigol arbenigol. Mae tîm amlddisgyblaethol Cancer Prostad Cynnar yn gweithredu'n dda ac yn casglu data da; fodd bynnag, nid yw trafodaethau a chanlyniadau'r tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cofnodi ar fformat electronig, ac felly nid ydynt ar gael i glinigwyr sy'n rheoli cleifion y tu allan i Gaerdydd a'r Fro, yn arbennig ym meysydd gofal sylfaenol, oncoleg a gofal lliniarol.

Mae'r tîm yn cefnogi ymchwil ac yn wych yn recriwtio ar gyfer treialu clinigol a chyflwyno samplau i'r Banc Cancer.

Nid oedd y tîm amlddisgyblaethol yn cynnal unrhyw gyfarfod busnes ffurfiol i fyfyrion ar ansawdd y gwasanaeth a thrafod materion perfformiad gwasanaeth oedd yn codi mewn archwiliadau ac i ystyried gwella'r gwasanaeth o ganlyniad.

Mae tîm rheoli'r bwrdd iechyd yn hwyluso nifer o drafodaethau i drafod perfformiad ac amserau aros cancer, ond nid oedd y cyfraniad clinigol i'r cyfarfodydd hyn yn eglur, megis cynrychiolaeth gan arweinwyr meddygol a nyrsio penodol i safle. Amlygwyd y ffaith y byddai ymgysylltiad clinigol yn y cyfarfodydd perfformiad yn rhoi cymorth i'r tîm amlddisgyblaethol wrth iddo reoli cleifion yn rhagweithiol.

4 Adolygiad o Wybodaeth Glinigol yn y Nodiadau Clinigol a Canisc

Adolygodd y tîm adolygu gan gymheiriaid sampl o nodiadau achos ar gyfer pump o gleifion. Roedd tystiolaeth mewn pedwar allan o bump o'r nodiadau achos bod meddygon teulu'n cael hysbysiad am ddiagnosis o fewn 24 awr. Roedd tystiolaeth yn nodiadau achos y pump claf o drafodaeth y tîm amlddisgyblaethol a chynllun rheoli cytûn. Cyfeirir at dystiolaeth y gweithiwr allweddol yn adran 2a.

5 Ymgysylltu â'r Rheolwyr

Mae nifer o gyfarfodydd yn cael eu cynnal i drafod perfformiad ac amserau aros cancer, ond nid oes dim cyfraniad clinigol i'r cyfarfodydd hyn. Yn ddiweddar, mae prif swyddog gweithredu'r bwrdd iechyd wedi hwyluso nifer o gyfarfodydd gyda chlinigwyr arwain y tîm amlddisgyblaethol i drafod eu perfformiad a chanfod meysydd i'w gwella.

Nid yw'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnal unrhyw gyfarfod busnes ffurfiol sy'n rhoi cyfle iddo drafod perfformiad ei wasanaeth er mwyn llywio unrhyw gynlluniau i wella'r gwasanaeth.

6 Diwylliant y Timau

Mae'r tîm yn cyflenwi gwasanaeth da sy'n canolbwyntio ar y claf, ac mae'n gallu cynnig technolegau newydd oherwydd y rhan weithredol mae'n ei chwarae mewn ymchwil. Fodd bynnag, roedd yn amlwg o'r data gwael a gyflwynwyd i gadarnhau hunanasesu bod diffyg cysylltiad rhwng y gwasanaethau cancer a thimau rheoli'r bwrdd iechyd, gan nad oedd pob aelod o'r timau amlddisgyblaethol wroleg wedi ymgysylltu â'r broses adolygu gan gymheiriaid.

ARFER DA / CYFLAWNIADAU ARWYDDOCAOL:

- Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cael cefnogaeth ragorol gan radioleg, patholeg ac oncoleg, ac mae cleifion yn cael cymorth gan dîm o nyrsys clinigol arbenigol.
- Datblygu llawfeddygaeth robotig
- Datblygu clinigau dan arweiniad nyrsys
- Mae'r cydgysylltydd llwybr wroleg yn gwneud cyfraniad rhagorol i'r gwasanaeth.
- Lefelau uchel iawn o gyfranogaeth mewn ymchwil, rhoi meinwe ac archwilio mewnol

PERYGLON AR UNWAITH

DIM

PRYDERON DIFRIFOL

DIM

PRYDERON

- Mae angen cydnabod pwysigrwydd data i sicrhau'r bwrdd a'r cyhoedd bod gwasanaeth o ansawdd yn cael ei gyflenwi ac i ganfod unrhyw feysydd gwan.
- Er bod y tîm amlddisgyblaethol Cancer Prostad Cynnar yn casglu gwybodaeth dda iawn am ganlyniadau, nid yw ar gael ar fformat electronig i bob clinigydd allu mynd ati.
- Nid oes cyfarfodydd busnes ffurfiol o'r tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal i gynllunio gwasanaethau a rhoi sylw i broblemau.
- Mae problemau ynghylch urddas/diogelwch cleifion wrth iddynt gael eu trosglwyddo i Ystafell 18 yn dilyn biopsïau TRUS.
- Diffyg gweithwyr llanw ar gyfer y cydgysylltydd llwybr wroleg
- Diffyg cyfraniad clinigol mewn cyfarfodydd perfformiad cancer
- Amserau aros hir i gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio o fyrddau iechyd eraill ar gyfer llawdriniaeth drydyddol
- Diffyg gwasanaeth oncoleg aciwt wedi ei drefnu o fewn y bwrdd iechyd